
taflen weithgareddau

# Cartrefi i fân drychfilod (1)

## Cartref i adenydd siderog a gwenyn unigol – dewis 1



**Beth sydd ei angen arnoch**

- Ffyn bambŵ neu frigau sy'n wag yn eu canol (mae coesynnau coeden fêl yn dda)
- Cynhwysydd fel hen dun coffi (wedi'i olchi – gwyliwch rhag ymylon miniog!), potyn blodau cadarn (y tyllau wedi'u cau), neu gwpan blastig
- Clai modelu
- Llinyn
- Tâp gludiog
- Siswrn

## Beth i'w wneud


1) Rhowch y llinyn yn sownd yn ochr y cynhwysydd. Gallwch ei glymu o amgylch y cynhwysydd neu ofyn i oedolyn eich helpu i wneud twll yn un o'r ochrau. Yna rhoi'r llinyn trwy'r twll a gwneud cwlwm y tu mewn. Defnyddiwch dâp gludiog hefyd i wneud yn siŵr bod y llinyn yn saff yn ei le.

2) Rhowch glai modelu dros y tu mewn i waelod y cynhwysydd.

3) Torrwch y ffyn gwag ychydig yn fyrrach nag uchder y cynhwysydd a'u gwthio i mewn i'r clai sydd ar y gwaelod. Daliwch i ychwanegu ffyn nes bydd y cynhwysydd yn llawn.

4) Y cyfan sydd ei angen wedyn yw coeden neu bostyn i hongian eich cartref wrtho. Gwnewch yn siŵr fod y cynhwysydd yn wynebu'r de a'i fod yn hongian ar ei ochr yng ngolau'r haul. Mae angen i ben agored y cynhwysydd oleddfu ar i lawr ychydig pan fydd yn hongian fel na fydd yr adenydd siderog a'r gwenyn yn gwlychu.

5) Cofiwch gael gwared ar y cynhwysydd yn ofalus pan na fydd o ddim defnydd mwyach.



LLUNIAU: STUART TROTTER

taflen weithgareddau

# Cartrefi i fân drychfilod (2)



## Cartref i adenydd siderog a gwenyn unigol – dewis 2

**Beth sydd ei angen arnoch**

- Llond llaw o ffyn bambŵ neu gyrs (bydd ffyn bambŵ o wahanol faint yn denu mwy o amrywiaeth o fân drychfilod, ond rhaid i beth bynnag a ddefnyddiwch fod yn wag yn y canol)
- Llinyn

## Beth i'w wneud

1) Clymwch y cansenni bambŵ at ei gilydd trwy roi llinyn o amgylch y cyfan. Gadewch beth o'r llinyn yn rhydd, i'w ddefnyddio i hongian y cartref.

2) Chwiliwch am le tawel yn yr awyr agored i'ch cartref gwag, lle bydd y mân drychfilod yn cael llonydd, a'i osod i hongian.



## Lloches i bryfed clustiau

**Beth sydd ei angen arnoch**

- Potyn blodau pridd neu hen dun coffi
- Gwellt sych a ffres
- Cansen neu bolyn o bren

## Beth i'w wneud

1) Llenwi'r potyn blodau/tun coffi â gwellt. Gofalwch rhag ymylon miniog ar y cynhwysydd. Gwthiwch gymaint o wellt ag y gallwch i mewn. Bydd hyn yn cadw'r mân drychfilod yn glyd a sych.

2) Trowch y potyn blodau/tun coffi ben i waered a'i roi ar ben y gansen neu'r polyn o bren fel nad yw'n cwympo i ffwrdd.

3) Rhowch y lloches mewn lle tawel y tu allan, lle bydd y mân drychfilod yn cael llonydd.